

Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

12. Newid hinsawdd

12.2 Pam fod materion newid hinsawdd yn bwysig i'r trydydd sector



Bydd y newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y bobl rydych yn gweithio â hwy

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn fwy na mater amgylcheddol, mae'n effeithio ar bob un ohonom gan fod effeithiau cymdeithasol ac economaidd iddo. Fel mudiadau a grwpiau trydydd sector mae angen i ni ddeall beth fydd yr effeithiau hyn, sut byddant yn effeithio ar y bobl a'r cymunedau rydym yn eu cefnogi ac ystyried yr hyn sydd angen i ni ei wneud i fynd i'r afael â'r effeithiau hyn.

Wrth gwrs, mae llawer o dueddiadau sy'n debygol o gael effaith fawr ar y trydydd sector yn y blynyddoedd nesaf. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn un hanfodol i'w hystyried, gan ei bod yn cyffwrdd â llawer o'r materion y mae ein sector eisoes yn ymdrin â hwy. Er enghraifft bydd yn bwrw'r bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas galetaf a chyflymaf. Bydd y newid yn yr hinsawdd yn dwysáu'r anghyfartaledd hwn ac anghyfartaleddau eraill y mae llawer yn y trydydd sector yn gweithio mor galed i'w datrys: mae'n achos o gyfiawnder cymdeithasol. Felly mae gan y mater oblygiadau enfawr ar gyfer ein sector, pa bynnag faes rydych ynddo.

Mae angen i ni felly ddeall sut bydd y newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y rheini rydym yn eu cefnogi a'r gwaith a wnawn i ddiwallu eu hanghenion.

Patrymau Tywydd sy'n Newid

Er gwaethaf ymdrechion i leihau'r effaith y caiff pobl ar yr amgylchedd, ystyrir bod rhywfaint o newid yn yr hinsawdd bellach yn anochel ac mae patrymau tywydd newydd eisoes yn dod i'r amlwg ar draws y byd ac yng Nghymru. Mae effeithiau newidiadau yn y tywydd oherwydd newid hinsawdd yn cynnwys problemau iechyd o ganlyniad i'r poethdonnau; effeithiau ar y seilwaith drwy amharu ar deithio oherwydd digwyddiadau tywydd eithafol; colledion economaidd a phersonol drwy lifogydd. Mae angen i ni felly helpu'r cymunedau hyn a'r grwpiau o bobl sy'n agored i niwed i ddatblygu eu 'gallu i addasu' ac i allu ymdopi â'r newidiadau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am sut bydd yn effeithio ar wahanol grwpiau gweler Taflen Wybodaeth *12.4 Newid Hinsawdd cyfiawnder cymdeithasol - effeithiau ar grwpiau bregus*. Mae'r daflen hon hefyd yn cynnwys enghreifftiau o fudiadau trydydd sector sy'n gweithio i fynd i'r afael â'r effeithiau hyn.

Polisiau'r Llywodraeth i leihau carbon

Yn ogystal â hyn, bydd polisiau i helpu i liniaru'r newid yn yr hinsawdd yn cael effaith ar y bobl rydym yn eu cefnogi; mae hwn yn effaith rydym yn debygol o'i gweld yn fuan iawn. Bydd y rhain yn cynnwys polisiau i liniaru allyriadau carbon mewn costau ynni, teithio, tai a ffordd o fyw. Mae Deddf Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU yn cynnwys system sy'n gosod cap ar allyriadau CO2 dros gyfnodau o bum mlynedd i'n helpu i aros ar y trywydd iawn i leihau allyriadau o 80% erbyn 2050.

Er mwyn lleihau ein heffaith gymdeithasol ar yr amgylchedd awgrymodd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy ac eraill bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ceisio symud tuag at economi carbon isel. Eto, caiff hyn effaith ar y ffordd y darperir ein seilwaith, gwasanaethau a swyddi presennol felly mae'n rhywbeth bydd yn cael effaith ar y meysydd y mae'r trydydd sector yn gweithio ynddynt.

I gael rhagor o wybodaeth ar economi carbon isel gweler Cymru Carbon Isel: Blaenoriaethau Rhanbarthol i'w Gweithredu y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy

www.sd-commission.org.uk/publications.php?id=1018

Lleihau ein heffaith ar yr Amgylchedd

Fel mudiadau a grwpiau trydydd sector mae angen i ni ddeall sut mae ein gweithredoedd yn effeithio ar yr amgylchedd a helpu i sicrhau ein bod yn lleihau ein cyfraniad at y newid yn yr hinsawdd.

Mae ein gweithredoedd rhwng nawr a 2015 yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau nad yw'r newid yn yr hinsawdd yn dod yn drychineb na ellir ei atal ar draws y byd. Mae angen i allyriadau carbon ddisgyn yn ddramatig yn y ddegawd nesaf. A hyd yn oed wedyn, bydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd dal yn ddinistriol yn rhai rhannau o'r byd.

Yma yng Nghymru y nod yw lleihau allyriadau o 40% erbyn 2020 ac o 80% erbyn 2050 (o'i gymharu â lefelau 1990). Mae gan bawb ohonom ran i'w chwarae i gyflawni hynny.

Mae hyn yn gwneud synnwyr i fudiadau trydydd sector: rydym yn bodoli i wneud gwahaniaeth, i wneud y byd yn lle gwell. Felly mae angen i ni weithredu mewn ffyrdd na fydd yn dinistrio'r blaned nawr neu yn y dyfodol.

Mae ôl-troed carbon eich mudiad yn cynrychioli faint o allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau. Mae'r ynni mae mudiad yn ei ddefnyddio ar gyfer gwres, golau, gweithgynhyrchu, trafniadaeth a'r adnoddau mae'n eu defnyddio, oll yn cyfrannu at ei ôl-troed. Drwy fabwysiadau ffordd o weithredu sy'n llai dwys o ran carbon, gallwch leihau eich ôl-troed- a'ch costau hefyd siŵr o fod. I gael rhagor o wybodaeth gweler *12.11 Lleihau ôl-troed carbon eich mudiad neu grŵp*.

Mae angen i ni hefyd ystyried pa berthynas all ein gwaith gael o ran yr amgylchedd naturiol, yr adnoddau mae'n eu darparu ac rydym yn dibynnu arnynt h.y. 'gwasanaethau ecosystemau'. I gael rhagor o wybodaeth ar y ffordd rydym yn gweld, diogelu a rheoli adnoddau naturiol Cymru gweler Cymru Fyw Llywodraeth Cymru.

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/nef/?skip=1&lang=cy>

Rôl y trydydd sector yn y newid yn yr hinsawdd

Mae gan y trydydd sector rôl gyfathrebu allweddol i'w chwarae wrth ymgysylltu â chymunedau ac unigolion, yn enwedig y rheini sydd anoddaf eu cyrraedd a grwpiau sy'n agored i niwed, i'w cefnogi wrth ystyried sut mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnynt a sut y gallant feithrin gallu i'w wrthsefyll drwy addasu eu cartrefi a'u cymunedau.

Pan fydd digwyddiadau eithafol yn digwydd, fel llifogydd, bydd y trydydd sector a chymunedau yn chwarae rôl bwysig yn yr ymateb ac wrth roi cymorth yn dilyn digwyddiadau o'r fath.

Mae hefyd gan y trydydd sector rôl eiriolaeth bwysig: rhaid i ni sicrhau bod polisïau lliniaru'r newid yn yr hinsawdd yn deg ac nad ydynt yn effeithio'n anghymesur ar bobl sydd eisoes dan anfantais. Rhaid i ni hefyd ymgyrchu ac eirioli er mwyn dyfodol mwy cynaliadwy.

Mae gan y trydydd sector hefyd rôl i annog a galluogi ein buddiolwyr a chymunedau i newid eu hymddygiad a byw mewn ffordd fwy cynaliadwy. Gall y trydydd sector fod yn rhanddeiliad allweddol wrth ddarparu atebion a phrosiectau ar gyfer ein buddiolwyr a'n cymunedau sy'n byw mewn ffordd gynaliadwy. I gael rhagor o wybodaeth gweler *12.12: Gweithredu ar lefel gymunedol leol ar newid hinsawdd.*

Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn y blynyddoedd nesaf a lleihau ein hól-troed carbon ein hunain.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod gan y trydydd sector rôl hanfodol wrth helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. I gael rhagor o wybodaeth ar y rôl y mae Llywodraeth Cymru yn ei gweld ar gyfer y trydydd sector darllenwch 'Uchafbwyntiau Gweithgareddau'r Trydydd Sector: Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd'

<http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/141011ccstratthirdsectoren.pdf>

Bydd y newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y ffordd mae eich mudiad yn gwneud ei waith

Mae mwy o dywydd stormus, prisiau ynni uwch a llai o drafnidiaeth ddibynadwy ymhlith y tueddiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac sy'n debygol o gael effaith uniongyrchol ar bob mudiad. Fel gyda risgiau eraill, byddai'n amhosibl rheoli pob bygythiad y gallai newid yn yr hinsawdd ei beri i'ch mudiad. Yr hyn fydd yn allweddol bydd ystyried yr amrywiaeth o heriau y gallech eu hwynebu, a'u hasesu yn ôl pa mor

debygol ydynt o ddigwydd a'r effaith byddent yn ei chael. Byddwch wedyn yn gallu creu cynllun ar gyfer rheoli'r risgiau. Mae hefyd yn debygol y bydd eich mudiad yn wynebu pwysau cynyddol i weithredu'n gynaliadwy gan ddeddfwriaethau, cyllidwyr a rhanddeiliaid eraill.

Mae llawer o fanteision i ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd

Mae mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn cynnig y cyfle i helpu i gyflawni nodau presennol ac ymdrechion ar gyfer y dyfodol i feithrin cymunedau mwy gwydn, economïau lleol cryfach a chymdeithas fwy teg. Mae gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd hefyd yn cynnig cyfleoedd o ran arbed arian drwy leihau eich ôl-troed carbon a chreu incwm, yn enwedig o ran ynni adnewyddadwy cymunedol.

I gael golwg graff ar y newid sydd ei angen a rôl y trydydd sector ynddo, edrychwch ar *Making Good Society* Ymddiriedolaeth Carnegie sy'n nodi'r materion mwyaf pwysig sy'n wynebu cymdeithas sifil yn yr 21ain Ganrif. Ceir hefyd animeiddiad sy'n dangos y twf mewn dealltwriaeth am heriau newid hinsawdd ac mae'n edrych ar rôl y gymdeithas sifil wrth greu polisïau a fydd yn cadw ein planed yn fyw.

www.carnegieuktrust.org.uk/2005---2010-programme/future-of--civil-society/climate-change

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth a thrafod effeithiau'r trydydd sector yn gweithredu ar newid hinsawdd dylech gyfeirio at:

Cyfnod newydd, cysylltiadau newydd: y gymdeithas sifil yn gweithredu ar newid hinsawdd.

Mae'r ddogfen hon yn trafod tirwedd y gymdeithas sifil yn gweithredu ar newid hinsawdd, gan ddarparu nifer o argymhellion ar gyfer sut i symud yr agenda hwn ymlaen. www.greenalliance.org.uk/page_93.php

Gwirionedd heb ei archwilio.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio prosiect peilot a gefnogir gan fudiadau gwirfoddol nad ydynt yn amgylcheddol i ystyried sut bydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar eu prif ddiben elusennol. Bydd y dulliau a ddefnyddir gan y pedwar grŵp o fudiadau a arweiniodd y gwaith o ddiddordeb i bawb yn y sector gwirfoddol, y gymuned ariannu annibynnol, ac yn y llywodraeth sydd â diddordeb mewn ffyrdd ymarferol i ehangu'r cylch o fudiadau sy'n ymwneud â gweithredu ar newid hinsawdd.

www.baringfoundation.org.uk/UnexaminedTruth.pdf

'Pontio'r bwlch rhwng newid hinsawdd, prinder adnoddau a chyfiawnder cymdeithasol: Rôl cymdeithasau sifil yn y dyfodol'

www.carnegieuktrust.org.uk/getattachment/971fba58-dc14-48b9-8b77-e6f7230cd26a/Bridging-the-Gap-Between-Climate-Change,-Resource-.aspx

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

The logo for WcVA CgGC is a red trapezoidal shape. Inside, the text 'WcVA' is written in white, bold, sans-serif font, with a thin white horizontal line underneath it. Below the line, the text 'CgGC' is written in the same white, bold, sans-serif font.

WcVA
CgGC

Ffôn: 0300 111 0124
www.wcva.cymru